# Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019

**2019 dccc 1**

PROSPECTIVE

*Darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth*

## 3 Gofyniad i rieni etc. ddarparu gwybodaeth

(1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau neu wybodaeth a bennir yn y rheoliadau, neu sydd o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(2) Ond ni chaniateir i ofyniad gael ei osod ar berson yn rhinwedd yr adran hon oni bai bod y person wedi gwneud, neu ei fod yn gwneud, ddatganiad o dan adran 1(3)(d).

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i gosb gael ei gosod ar berson sy'n darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cysylltiad â gofyniad a osodir yn rhinwedd yr adran hon.

(4) Yn is-adran (3) ystyr "anwir neu gamarweiniol" yw anwir neu gamarweiniol mewn manylyn perthnasol.

(5) Ond nid yw person yn agored i gosb yn rhinwedd yr adran hon mewn cysylltiad ag unrhyw beth os yw'r person wedi ei euogfarnu o drosedd mewn perthynas ag ef.

(6) Uchafswm unrhyw gosb y caniateir iddi gael ei phennu neu ei phenderfynu yn unol â'r rheoliadau yn rhinwedd is-adran (3) yw £3,000.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**Statws** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth. (See end of Document for details)*

**4 Darparu gwybodaeth gan drydydd partïon**

(1) Caiff y rheoliadau ganiatáu i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu berson sy'n darparu gwasanaethau i'r Comisiynwyr, ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(2) Caiff y rheoliadau hefyd ganiatáu i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i adran o'r llywodraeth neu i un o Weinidogion y Goron, ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(3) Caiff y rheoliadau ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i awdurdod lleol, ddarparu gwybodaeth gymhwysol i Weinidogion Cymru, neu i berson sy'n darparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru.

(4) Ystyr "gwybodaeth gymhwysol" yw gwybodaeth a bennir yn y rheoliadau neu sydd o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau; ond ni chaiff gwybodaeth na disgrifiad o wybodaeth gael ei phennu neu ei bennu felly ond os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny at ddibenion penderfyniadau o ran cymhwystra i gael cyllid o dan adran 1.

(5) Ni chaniateir gwneud darpariaeth yn y rheoliadau ar gyfer datgelu gwybodaeth a gedwir gan—

(a) Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
(b) un o Weinidogion y Goron;
(c) adran o'r llywodraeth;
(d) person sy'n darparu gwasanaethau i berson a grybwyllir ym mharagraff (a), (b), neu (c),

ond os yw'r Gweinidog priodol wedi cydsynio â'r ddarpariaeth.

(6) Y Gweinidog priodol yw—

(a) mewn perthynas â Chomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, y Trysorlys;
(b) mewn perthynas ag un o Weinidogion y Goron neu adran o'r llywodraeth, yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

I2 A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**5 Datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4**

(1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer datgelu ymlaen wybodaeth sydd wedi cael ei datgelu yn rhinwedd adran 3 neu 4.

(2) Ond mae is-adran (3) yn gymwys yn achos gwybodaeth sydd wedi ei datgelu yn unol â darpariaeth y mae'r Gweinidog priodol wedi cydsynio â hi o dan adran 4(5).

(3) Ni chaiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer datgelu ymlaen yr wybodaeth ond os yw'r Gweinidog priodol (o fewn ystyr adran 4) wedi cydsynio â'r ddarpariaeth ar gyfer datgelu ymlaen.

(4) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n creu troseddau mewn cysylltiad â datgelu ymlaen wybodaeth sy'n ymwneud â pherson penodol.

(5) Os yw'r rheoliadau yn creu trosedd mewn perthynas â datgelu ymlaen wybodaeth, ni chaiff darpariaeth a wneir ar gyfer unrhyw gosb o garchar ar euogfarn ar dditiad bennu cyfnod o garchar sy'n hwy na dwy flynedd (pa un a yw'n dod gyda dirwy ai peidio).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 13(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Darpariaeth ar gyfer datgelu gwybodaeth.